
Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Llywodraeth Cymru

# Galluogi Pobl Cymru i Bontio i Sero Net yn 2026–2030 a thu hwnt, ac elwa arno



# 1. Pam rydyn ni am drafod

Mae'r byd yn newid ac mae hynny'n dod â risgiau a chyfleoedd i Gymru. Wrth i'n hinsawdd gynhesu, fe welwn fwy o gyfnodau o wres mawr a gaeafau mwynach a gwlypach. Mae lefel y môr yn codi a bydd stormydd ffyrnig yn fwy cyffredin. Mae pob blwyddyn o oedi yn golygu y byddwn yn fwy tebygol o weld mwy o lifogydd, tanau a chyfnodau poeth, a mwy o risgiau i'n hiechyd, ein heconomi a'n dyfodol

Ond mae mwy. Mae'r newid yn dod â chyfle a manteision – i'n hiechyd, cyfrifon banc, diogelwch, ffyrdd o fyw ac i'n twf fel gwlad. Rhaid manteisio ar hyn. Bydd gweithredu nawr yn rhatach na delio â'r difrod wedyn. Mewn byd ansicr, mae gwneud penderfyniadau sy'n caniatáu i ni leihau ein galw am ynni a deunyddiau neu eu cael o ffynonellau mwy cynaliadwy, yn ein symud tuag at fwy o sicrwydd o ran costau a chyflenwadau. Mae'n gyfle i greu swyddi newydd a chymunedau cryfach ac aer glanach. Mae'n ymwneud hefyd â thegwch – i genedlaethau'r dyfodol ac i bobl sydd eisoes yn teimlo'r effeithiau. Mae yna hefyd ddealltwriaeth glir bod angen ystyried addasu a lliniaru wrth i ni ymateb i her y newid yn yr hinsawdd.

Mae sut rydyn ni'n newid ac amseriad y newidiadau hynny yn bwysig iawn. Nid yw'r costau a'r manteision bob amser yn cael eu rhannu'n deg. Mae angen i ni ddeall beth sydd angen ei wneud i gael y manteision hyn, beth sy'n ein rhwystro rhag eu gwireddu a pha ystyriaethau a chyfaddawdau sydd angen eu cloriannu. Dyna pam mae angen clywed eich llais chi.

OGL © Hawlfraint y Goron 2025, Llywodraeth Cymru, WG53107, ISBN digidol 978-1-80633-488-9
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

## 1.1 Diben y papur hwn

Mae'r adroddiad hwn wedi'i gynllunio i fwydo ac ysgogi trafodaeth am rannau nesaf ein llwybr tuag at ddyfodol glanach, mwy disglair. Rydym wedi defnyddio amrywiaeth o dystiolaeth ac adolygiadau i roi blas i chi o'r gwahanol opsiynau sydd ar gael ac i borthi'ch ymatebion a'n helpu i benderfynu ar y ffordd orau ymlaen i Gymru. Byddwn yn troi at y ddogfen hon yn helaeth yn ystod **Wythnos Hinsawdd Cymru ym mis Tachwedd 2025**, ac yn ystyried ffrwyth y trafodaethau a gawn bryd hynny wrth ddatblygu'r cynllun nesaf ar gyfer lleihau allyriadau dros y pum mlynedd nesaf. Y bwriad yw cyhoeddi'r cynllun hwnnw cyn diwedd 2026.

Yn ein cynllun Sero Net Cymru: Cyllideb Garbon 2, dywedon ni fod angen i'r 2020au fod yn ddegawd o weithredu. Fe wnaethon ni gydnabod bod angen gweithredu ar frys i leihau ein hallyriadau ac i wireddu manteision dyfodol glanach, iachach, tecach ac economaidd mwy ffyniannus.

Mae hanner y degawd hwnnw o weithredu eisoes wedi mynd heibio, ac rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol. Ond ni allwn adael i bethau arafu. Rhaid i ni gydio yn y cyfleoedd a ddaw yn sgil y trawsnewid a manteisio arnyn nhw. Mae'r rhan fwyaf o'r gostyngiad yn yr allyriadau hyd yma wedi digwydd yn y sectorau pŵer a diwydiant. Ac er bod mwy o waith i'w wneud yn y sectorau hynny, wrth i ni symud trwy'r degawd nesaf, fe welwn fwy o newid yn allyriadau sectorau eraill fel **amaethyddiaeth a defnydd tir, tai a thrafnidiaeth**. Bydd angen i'r cynllun lleihau allyriadau nesaf, a gyhoeddir ddiwedd 2026, nodi llwybr clir at ddatgarboneiddio'r sectorau hyn a sectorau eraill, a sicrhau'r manteision cysylltiedig i Gymru.

Wrth i chi ddarllen y papur hwn, rydym yn eich annog i feddwl am:

- Sut gallwn ni gael pobl i newid eu harferion a'u hymddygiad yn gynt **er mwyn gwireddu'r manteision cyntaf**?
- Sut ydyn ni'n **gwireddu'r potensial** yng Nghymru, er enghraifft, i wella cynhyrchiant, diogelu cyflenwadau ynni i'n cartrefi, a/neu i'w gwneud hi'n haws teithio mewn ffyrdd glanach, gwyrddach?
- Sut gallwn ni leihau allyriadau ac yr un pryd **gwella'n gallu i wrthsefyll** effeithiau hinsawdd sy'n newid?
- Beth yw'r **rhwystrau** sy'n sefyll yn ein ffordd? Sut gallwn ni eu chwalu?
- Pa **risgiau neu ganlyniadau** y mae angen i ni weithio gyda'n gilydd i'w hosgoi, i sicrhau pontio teg a chyfiawn?

## 1.2 Sut mae annog pobl i gymryd rhan?

Wythnos Hinsawdd Cymru yw'r prif ddigwyddiad i randdeiliaid ddeall y dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg, magu dirnadaeth unigryw, creu cysylltiadau a chyflymu'n camau at wireddu ein nodau ar gyfer yr hinsawdd. Mae'r brif gynhadledd wedi'i chynnal ar-lein ers 2020 gan ddod â chyrff a rhwydweithiau sector cyhoeddus, cyrff a busnesau diwydiant, mudiadau amgylcheddol, sefydliadau academaidd a mwy, ynghyd i gydweithio.

Ers 2022, mae cronfa grant Sgyrsiau Hinsawdd Llywodraeth Cymru wedi ehangu'r drafodaeth y tu hwnt i'r gynhadledd ar-lein, i gynnwys deialog â chymunedau lleol ac aelodau'r cyhoedd ym mhob cwr o Gymru. Ers 2022, mae'r gronfa wedi rhoi cymorth ariannol i sefydliadau gynnal 111 o ddigwyddiadau cymunedol, gyda

thros 6,000 o aelodau'r cyhoedd yn cymryd rhan. Er mwyn cael cyllid, rhaid i drefnwyr gynnal eu digwyddiad yn ystod y brif wythnos neu o fewn cyfnod penodedig ar ei hôl, ateb set o gwestiynau gan Lywodraeth Cymru a chyflwyno adroddiad gwerthuso ar ôl y digwyddiad gyda'r prif ganfyddiadau. Bydd y Llywodraeth yn defnyddio'r dystiolaeth a geir i'w helpu i wneud penderfyniadau yn y dyfodol a'i helpu i ddeall beth sy'n bwysig i gymunedau ledled Cymru.

Eleni, bydd Llywodraeth Cymru yn gwahodd trafodaeth ar y pwyntiau a godir yn y papur hwn drwy gynhadledd ac arddangosfa ar-lein feiddgar, ymdrwythol a newydd eu gwedd (dydd Llun 3 i ddydd Mercher 5 Tachwedd). Hefyd, yn ystod y brif wythnos, bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal tri gweithdy trwy wahoddiad, yn y De, y Canolbarth a'r Gogledd i ystyried prif gwestiynau'r papur hwn gydag aelodau dethol o'r cyhoedd yn cynrychioli gwahanol gynulleidfaoedd, gan gynnwys plant ysgol a grwpiau ymylol. Bydd cronfa grant Sgyrsiau'r Hinsawdd yn ailagor i gefnogi digwyddiadau cymunedol, hynny tan ddiwedd Chwefror 2026.

Caiff mewnbwn ac adborth o'r rhaglen hon o ddigwyddiadau eu casglu a'u dadansoddi i sicrhau bod ystod o safbwyntiau yn cael eu hystyried wrth ddatblygu'r cynllun lleihau allyriadau nesaf (ar gyfer 2026–2030). Bydd trafodaethau gydag aelodau'r cyhoedd yn holi hefyd beth arall y gallai Llywodraeth Cymru ei wneud i annog mwy o ymgysylltu â'r rheini y mae'r polisïau yn y meysydd hyn yn effeithio arnyn nhw.



# 2. Cyflwyniad

## 2.1 Cyd-destun ac Ymrwymiadau Datgarboneiddio yng Nghymru

Mae'n deddfau yn datgan ein bod yn mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd. Rydym wedi'n rhwymo trwy'r gyfraith i dargedau hinsawdd i gyrraedd sero net erbyn 2050, gyda chyllidebau carbon interim ar gyfer 2020, 2030 a 2040 yn pennu'r llwybr.

**Cyllideb Garbon 1.**
Roedd ein cyllideb garbon gyntaf (2016-2020) yn anelu at ostyngiad o 23% ar gyfartaledd o'i gymharu â'r flwyddyn sylfaen, 1990. Yn 2022, dangoson ni ein bod wedi rhagori ar darged interim 2020 a'r gyllideb garbon gyntaf. Er rhaid cydnabod bod y pandemig wedi cael effaith sylweddol ar allyriadau 2020.

**Cyllideb Garbon 2.**
Mae'r Ail Gyllideb Carbon (2021–2025) yn anelu at gostyngiad cyfartalog o o leiaf 37%. Mae ein **cynllun Sero Net Cymru** diweddaraf yn cydnabod her y newid yn yr hinsawdd a'r brys i fynd i'r afael ag e, a'i nod yw gwneud yn well na'r ail gyllideb garbon i sicrhau ein bod ar y llwybr cywir tuag at darged interim 2030, a sero net erbyn 2050. Hyd yn hyn, rydyn ni ar y trywydd iawn. Rhwng 2023 (y flwyddyn ddiweddaraf y mae gennym ddata swyddogol ar ei chyfer) a'r flwyddyn sylfaen, 1990, mae allyriadau Cymru wedi gostwng 38%.

**Cyllideb Garbon 3.**
Yn 2026, bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ei chynllun ar gyfer bodloni Cyllideb Garbon 3 (2026–2030).

**Cyllideb Garbon 4.**
Yn 2025, bydd y Senedd yn gwneud rheoliadau i wneud Cyllideb Garbon 4 (2031–2035) yn gyfraith.

Yn y sectorau pŵer a diwydiannol y mae'r rhan fwyaf o'r datgarboneiddio wedi digwydd yng Nghymru hyd yma. Gyda'r rhan fwyaf o'r cyfleoedd yn y sectorau hyn wedi'u cymryd neu ar fin cael eu cymryd, mae'n rhaid i ni nawr chwilio am ostyngiadau mwy arwyddocaol mewn sectorau eraill. Mae'r ddogfen hon yn ystyried opsiynau, manteision a risgiau gwahanol weithredoedd a chyfuniadau o weithredoedd i daro'n targedau lleihau allyriadau statudol yng Nghymru yng Nghyllideb Garbon 3, a gosod y sylfaen ar gyfer eu gostwng ymhellach yng Nghyllideb Garbon 4 (2031–2035) a thu hwnt.

## 2.2 Cyngor annibynnol

Mae ymchwil annibynnol sy'n darparu tystiolaeth wrthrychol, wedi'i seilio ar y wyddoniaeth, yn hanfodol i allu creu polisi.

Yn y papur hwn, rydym yn disgrifio'r prif nodweddion y mae'r Pwyllgor Newid Hinsawdd yn eu rhagweld ar y llwybr i'r 2030au, yn rhoi trosolwg byr o bolisi cyfredol y DU a Llywodraeth Cymru, ac yn cyflwyno tystiolaeth ac adroddiadau eraill sydd wedi ystyried y llwybr at sero net.

Y Pwyllgor Newid Hinsawdd (PNH) yw cynghorydd statudol Llywodraeth Cymru. Cyhoeddodd yn ddiweddar (Mai 2025) **gyngor i Gymru** ar CC4 a'r llwybr i'w gyrraedd. Mae'r cyngor hwnnw'n awgrymu y bydd gweithredu cost-effeithiol, tymor byr tuag at sero net yn y deng mlynedd nesaf yn digwydd fwyfwy mewn meysydd sy'n effeithio ar fywyd pob dydd mwyafrif pobl Cymru:


- trafnidiaeth – yn bennaf trwy ddefnyddio cerbydau trydan;
- adeiladau – yn bennaf trwy ddefnyddio systemau gwresogi trydan;

- amaethyddiaeth a defnydd tir – yn bennaf trwy rymoedd y farchnad yn y system fwyd fydd yn gofyn i ffermwyr arallgyfeirio eu hincwm a'r economi wledig.

Mae'n bwysig cofio mai llwybr a chyngor y PNH yw'r unig gyngor cynhwysfawr sydd ar gael. Mae'n cynnig gweithredoedd wedi'u costio gyda thystiolaeth, a allai ostwng yr allyriadau yn unol â'r angen. Mae'n anorfod y bydd y llwybr tua'r dyfodol yn seiliedig ar lawer o ragdybiaethau. Mae rhagdybiaethau'r PNH wedi'u nodi yn ei **ddogfen fethodoleg** a'r tablau data ategol. Mae'n bosib bod yna lwybrau eraill sydd â phroffil cost/manteision gwahanol ac rydym yn awyddus i ddeall ac archwilio llwybrau gwahanol.

**Gwasgariad gostyngiadau mewn allyriadau yn ystod cyfnodau'r cyllidebau carbon**

Mae dros 60% o'r gostyngiadau yn yr allyriadau yn CG4 yn dod yn bennaf o sectorau datganoledig




**Data Costau'r PNH**

**Mae'r PNH wedi cyhoeddi cost pob mesur y mae'n ei ddisgrifio fel mesur arwyddocaol ar y llwybr Sero Net Cytbwys, a'r gostyngiad a ddisgwylir yn yr allyriadau yn sgil ei gynnal. Mae'r mesurau hyn yn weithredoedd cost-effeithiol penodol ar gyfer datgarboneiddio pob sector. Detholiad o'r data a gynhwysir yn y ddogfen hon ond y bwriad yw dangos y mesurau y disgwylir iddynt leihau'r allyriadau carbon fwyaf ym mhob sector (y % uchaf o ostyngiad yn y sector), a'r mesurau mwyaf cost-effeithiol fesul tunnell o ostyngiad o $CO_2$ (cost net isaf, £/tunnell).**


**Ein nod yw tynnu sylw at y polisïau a allai gael yr effaith fwyaf ar allyriadau'r sector, yn ogystal â defnyddio hefyd fesurau datgarboneiddio penodol sy'n arbed costau neu sy'n rhad fesul tunnell o ostyngiad.**

Ar gyfer mesurau sy'n arbed costau, dylai'r cyhoedd a busnesau *mewn theori* weld hynny fel cymhelliant i'w mabwysiadu gan y byddent ar eu hennill yn ariannol. Lle nad yw hyn yn digwydd, gall y llywodraeth edrych beth sy'n rhwystro pobl rhag eu mabwysiadu, a sut i chwalu'r rhwystrau hynny. Gallai hyn gynnwys polisïau fel ymgyrchoedd addysg, arwyddion, benthyciadau i liniaru costau cychwynnol, canllawiau a rheoliadau neu fathau eraill o gymorth.

Ar gyfer mesurau sy'n golygu costau ychwanegol, efallai y bydd angen cymryd camau ychwanegol i ysgogi pobl i'w mabwysiadu a/neu i leihau eu heffeithiau negyddol ar rai grwpiau cymdeithasol. Gallai hyn gynnwys polisïau fel benthyciadau a grantiau, canllawiau a rheoliadau, safonau gofynnol, trethi neu ddirwyon, neu ymyriadau eraill. Weithiau, gallai gynnwys mesurau arloesol i leihau cost y mesurau, megis help i ddiwydiannau cyflenwi.

Ers dechrau 2023, mae sawl corff a grŵp annibynnol wedi cyhoeddi astudiaethau ac argymhellion dylanwadol ar strategaethau i liniaru'r hinsawdd sydd wedi'u teilwra i gyd-destun cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol unigryw Cymru. Yn eu plith, y mae **Grŵp Her Sero Net Cymru 2035,** gyda chefnogaeth Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (WCPP), ac amryw o ymgynghoriadau ac adolygiadau eraill a gomisiynwyd gan y Llywodraeth.

Mae tystiolaeth o'r fath yn bwydo polisïau uchelgeisiol ac ymarferol, sy'n economaidd gadarn, yn gymdeithasol gyfiawn, ac yn cyd-fynd ag ymrwymiadau hinsawdd rhyngwladol. Mae'r dystiolaeth yn nodi hefyd fylchau yn y wybodaeth, yn nodi'r heriau sy'n dod i'r amlwg neu ganlyniadau anfwriadol ac mae'n rhan hanfodol o'r broses o lunio polisïau.



# 3. Llinynnau cyffredin

O gofio ein bod, wrth wresogi ein cartrefi, teithio a chynhyrchu bwyd, yn dibynnu i raddau helaeth ar danwydd ffosil neu'n cynhyrchu allyriadau, nid yw'n syndod bod llinynnau cyffredin yn y dystiolaeth a'r cyngor sydd gennym ar drafnidiaeth, amaethyddiaeth, defnydd tir a thai. Mae nodweddion gwahanol i'r llinynnau hyn ac rydym wedi dewis eu grwpio'n dair thema: cyd-amcanion strategol, rôl pobl wrth lunio a chyflawni newid, ac arloesi a meithrin capasiti.

## 3.1 Cysondeb y Cyngor ar draws sectorau

### Cyd-amcanion strategol

Ar draws amaethyddiaeth, defnydd tir, tai, a thrafnidiaeth, mae'r cyngor a gawsom o nifer o ffynonellau yn aml yn cefnogi'r un amcanion strategol:

- **Datgarboneiddio cyflym** i fodloni cyllidebau carbon statudol.
- **Atebion sy'n seiliedig ar natur ac atebion carbon isel** wedi'u teilwra i ddaearyddiaeth ac economi Cymru.
- **Tegwch, cyfiawnder cymdeithasol a chydraddoldeb,** i sicrhau bod grwpiau agored i niwed yn cael eu diogelu a'u cefnogi.

Mae'r amcanion hyn yn adlewyrchu ymrwymiad Cymru i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n gorfodi pob maes polisi i ystyried datblygu cynaliadwy. Atgyfnerthir hyn gan Fil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethu a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) Llywodraeth Cymru sy'n sail arall i'w hymrwymiad i adfer natur.

### Rôl pobl wrth lunio a chyflawni newid

Mae'r cyngor ym mhob sector yn cydnabod nad yw atebion technegol ar eu pen eu hunain yn ddigon. Mae rôl i bawb yn hyn – gwneud dewisiadau newydd a gwahanol am y ffordd rydyn ni'n byw, gweithio, teithio a bwyta, gyda chefnogaeth system sy'n gwneud y dewisiadau gwyrdd hyn yn rhatach, yn haws ac yn fwy cyfleus. Er enghraifft, trwy annog diet iach a defnydd cynaliadwy, hyrwyddo ymwybyddiaeth am arbed ynni, yn ogystal â lleihau dibyniaeth ar geir ac annog cerdded, olwynio a beicio. Gwyddom o'r dystiolaeth ac o'n profiad ein hunain y gall newid fod yn anodd i bobl, yn enwedig os ydynt yn gweld eu bod yn cael eu trin yn annheg, neu os yw'r newid yn cael ei wneud iddynt. O ganlyniad, gall newid greu tensiwn mawr. Rydym am ddeall y tensiwn hwnnw, a'i ddatrys trwy ein hymateb polisi.

Ar draws y dystiolaeth, ceir cefnogaeth gyson i ddulliau cyfranogol, er enghraifft:

- Ffermwyr a thirfeddianwyr wrth gynllunio a rheoli defnydd tir.
- Tenantiaid a landlordiaid wrth adeiladu neu addasu cartrefi carbon isel.
- Cymunedau a defnyddwyr gwasanaethau wrth gynllunio trafnidiaeth.

Mae hyn yn adlewyrchu diddordeb cynyddol ymhlith y cyhoedd mewn **democratiaeth gydgynghorol** a **llywodraethu ar sail lle**, a chefnogaeth iddynt, lle mae'r rheini yr effeithir arnynt yn cael dylanwadu ar bolisïau.

Mae **Strategaeth Ymgysylltu â'r Cyhoedd Gweithredu ar Newid Hinsawdd** yn ymrwymo Llywodraeth Cymru i gynnwys pobl a chymunedau Cymru wrth wneud penderfyniadau ar yr hinsawdd, ac yn annog pobl i ddewis ynni gwyrdd a theithio a bwyd cynaliadwy. Mae enghreifftiau o ymgysylltu a chyfranogiad wrth ddatblygu polisi yn cynnwys:

- Fforwm y Diwydiant Amaethyddol a Newid Hinsawdd (AICCF), lle mae rhanddeiliaid amaethyddol yn cyflwyno tystiolaeth ac yn helpu i fonitro camau at ddatgarboneiddio o fewn amaethyddiaeth Cymru.

- Mae'r consortiwm Defnydd Tir ar gyfer Sero Net, Natur a Phobl (LUNZ) hefyd wedi bod yn cyfrannu at bolisïau defnydd tir a'r pontio cyfiawn sydd ei angen i gyrraedd Sero Net.
- Tenantiaid a landlordiaid yn cymryd rhan wrth werthuso Safon Ansawdd Tai Cymru a'r Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio i lywio polisi yn y dyfodol ar osod offer arbed ynni mewn cartrefi cymdeithasol.

### Hyfforddiant a Meithrin Capasiti

Mae gan bob sector o'r economi ei rhan i leihau allyriadau – a gall wneud hyn a thyfu'r economi yr un pryd. Er mai'r sectorau amaeth, defnydd tir, trafnidiaeth a thai yw ffocws y papur trafod hwn, mae llawer o'r cyfleoedd a'r heriau yn berthnasol hefyd i sectorau ehangach. Mae'r cyngor i bob sector ar leihau allyriadau yn tynnu sylw at yr angen am:

- **Arloesi technolegol neu fodel busnes:** e.e. technoleg amaeth, cerbydau trydan neu ffyrdd newydd o dalu am bympiau gwres.
- **Datblygu sgiliau:** cael pawb i fanteisio ar y cyfleoedd economaidd e.e. gweithlu ôl-osod, cynllunio trafnidiaeth gynaliadwy, rheoli tir.
- **Systemau data a monitro:** tracio cynnydd a chanlyniadau i helpu penderfynwyr.

Mae hyn yn dangos ar draws sectorau bod angen i'r sectorau cyhoeddus a phreifat **fuddsoddi rhagor yn ein cymunedau, mewn addysg, hyfforddiant, a seilwaith digidol**. Mae'n gyfle hefyd i feithrin ffyniant economaidd yr un pryd â chynaliadwyedd amgylcheddol, gan ysgogi arloesedd, sgiliau a buddsoddi er sicrhau Cymru wydn, gynhwysol a pharod i'r dyfodol.

**Byddwn yn defnyddio Wythnos Hinsawdd Cymru i ysgogi trafodaeth am y pethau sydd efallai'n atal arloesi a datblygu sgiliau o'r fath ac i holi a oes digon o gymorth ar gael i drawsnewid yr economi i ddyfodol gwyrddach, o ran technoleg, sgiliau a data.**

## 3.2 Rhyng-ddibyniaethau rhwng sectorau

Mae'r cyngor yn atgyfnerthu'n gyson bwysigrwydd ymdrin â phethau mewn ffordd systemaidd, i ddeall rhyng-ddibyniaethau, cyfaddawdau a thensiynau yn well – i leihau costau diangen a gwneud y mwyaf o gyd-fanteision. Mae rhai enghreifftiau wedi'u nodi yma.

- **Tai ↔ Defnydd Tir**

  Gall ehangu trefol ac ymateb i'r angen am fwy o gartrefi yng Nghymru effeithio ar faint o dir amaethyddol sydd ar gael. Hyn a hyn o dir sydd ar gael ar gyfer y prif ddibenion: tai, cynhyrchu bwyd, coedwigaeth, bioamrywiaeth, ynni adnewyddadwy, adfer mawnogydd ac ati. Gall hyn greu tensiynau o ran pwrpasau economaidd tir Cymru a'i allu i gyfrannu at ein targedau hinsawdd.

  Yn yr un modd, gall creu seilwaith gwyrdd mewn datblygiadau tai gefnogi bioamrywiaeth a dal a storio carbon. Yn hanesyddol, nid yw cynlluniau safle a deunyddiau/dulliau adeiladu cartrefi wedi rhoi digon o sylw i natur a hinsawdd, ond mae hyn yn newid. Er enghraifft, wrth ddylunio cartrefi cymdeithasol newydd, mae Gofynion Ansawdd Datblygu Cymru yn pwysleisio y dylai datblygiadau newydd fod yn amgylcheddol ac yn ecolegol gynaliadwy o ganlyniad i ddylunio da. Yn ogystal, mae Strategaeth Ddiwydiannol newydd Llywodraeth Cymru ar gyfer Pren, **Datblygu'r Diwydiant Pren yng Nghymru**, a phrosiectau

tai cymdeithasol cydweithredol fel Tai ar y Cyd yn cynnig ffyrdd da o weithio ar gyfer y dyfodol.

› **Tai ↔ Trafnidiaeth**

Mae rhai datblygiadau tai yn ystod y degawdau diwethaf wedi'u hadeiladu yn ôl gallu preswylwyr i gael at gar a'u dibyniaeth ar geir, gan gyfrannu at allyriadau ac o bosibl niweidio iechyd. Ar y llaw arall, gall cymunedau cryno, defnydd cymysg sy'n ymgorffori llwybrau teithio llesol leihau'r ddibyniaeth ar geir a chryfhau cydlyniant cymdeithasol.

› **Trafnidiaeth ↔ Defnydd Tir**

Mae prosiectau seilwaith trafnidiaeth yn effeithio ar ecosystemau a phatrymau defnydd tir. Mae hyn yn aborfod i ryw raddau, ond os ydym am wrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth a tharo'n targedau allyriadau, mae angen i ni ddeall y cyfaddawdau yn well a gwneud penderfyniadau gwell.

Mae angen i ni greu a manteisio ar gyfleoedd i rwydweithiau trafnidiaeth helpu i gynnal nodweddion coed a bioamrywiaeth llinol a chreu cysylltiadau allweddol rhwng ardaloedd o gynefin.

Mae trafnidiaeth wledig yn effeithio ar hyfywedd busnesau gwledig ac felly cyfleoedd economaidd yn ein cymunedau gwledig.

Mae'r rhyng-ddibyniaethau hyn yn atgyfnerthu'r angen am i ni weithio mewn ffordd systemaidd, gyda **chynllunio gofodol integredig, dylunio polisi ar draws sectorau a llywodraethu aml-lefel gydag, unwaith eto, dinasyddion a chymunedau wrth wraidd y broses benderfynu**.

Wrth i ni ddatblygu ein cynllun ar gyfer Cyllideb Garbon 3, rydym yn bwriadu disgrifio'r polisïau a'r cynigion sydd eu hangen i gefnogi'r llwybr ar sail thema. Mae'r cysylltiadau traws-sector a ddisgrifir yma yn dangos y berthynas rhwng ac ar draws sectorau.

Fel y nodir ym **mhapur briffio 2023 y PNH ar Addasu a Datgarboneiddio**, mae rhyng-ddibyniaethau sylweddol i'w hystyried hefyd yn yr holl sectorau hyn o ran mesurau i leihau'r newid yn yr hinsawdd ac addasu iddo. Disgrifir rhai enghreifftiau penodol yn yr adrannau canlynol.

**Byddwn yn defnyddio Wythnos Hinsawdd Cymru i archwilio'r themâu hyn – sut i ystyried buddion, cysylltiadau a chyfaddawdau'r polisïau posibl hyn?**



## Cynllunio Gofodol a Chreu Lleoedd

Mae'r system gynllunio yn chwarae rhan allweddol wrth fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd drwy ddatgarboneiddio'r system ynni a rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

**Cymru’r Dyfodol: y Cynllun Cenedlaethol 2040** yw ein fframwaith datblygu cenedlaethol, gan osod y cyfeiriad ar gyfer datblygu yng Nghymru hyd at 2040. Mae'n gynllun datblygu gyda strategaeth ar gyfer mynd i'r afael â phrif flaenoriaethau cenedlaethol drwy'r system gynllunio, gan gynnwys cynnal a datblygu economi fywiog, cyflawni datgarboneiddio a gwydnwchhinsawdd, datblygu ecosystemau a gwella iechyd a llesiant ein cymunedau;

Cynllun gofodol yw Cymru'r Dyfodol, sy'n golygu ei fod yn gosod cyfeiriad ar gyfer lle dylem fod gan fuddsoddi mewn seilwaith a datblygu er lles Cymru a'i phobl.

Mae Cymru'r Dyfodol yn gosod yr her o gyflwyno'r gwelliannau hyn i'r cyhoedd, y sector preifat a'r trydydd sector. Mae'n gwneud yn glir bwysigrwydd cynllunio seilwaith newydd a datblygu yn y fath fodd fel eu bod yn gyflenwol yn hytrach na blaenoriaethau yn cystadlu, gan sicrhau bod cymaint o gyfleoedd a phosibl a bod manteision lluosog i'w gweld.

Fel y fframwaith datblygu cenedlaethol, Cymru'r Dyfodol yw'r haen uchaf o gynllun datblygu ac mae'n canolbwyntio ar atebion i broblemau a heriau ar raddfa genedlaethol. Mae'n ofynnol i GynlluniauDatblygu Strategol a Lleol gydymffurfio â Dyfodol Cymru a rhaid eu diweddaru i sicrhau eu bod hwy a Cymru'r Dyfodol yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol.

Mae'n rhaid i benderfyniadau cynllunio ar bob lefel o'r system gynllunio yng Nghymru gael eu gwneud yn unol â'r cynllun datblygu cyfan.

# 4. Y cyngor hyd yma

## 4.1 Amaethyddiaeth a Defnydd Tir

### 4.1.1 Amaethyddiaeth a Defnydd Tir – y sefyllfa ar hyn o bryd

O 2025 ymlaen, mae gan Lywodraeth Cymru nifer o bolisïau byw ac yn yr arfaeth ar gyfer amaethyddiaeth a defnydd tir, sy'n adlewyrchu ei hymrwymiad i gynaliadwyedd, gwrthsefyll effeithiau'r hinsawdd a diogelu cyflenwadau bwyd. Yn eu plith:

**Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023**

- Yn rhoi'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer cymorth amaethyddol ar ôl Brexit.
- Yn cyflwyno amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy (SLM), gan gynnwys:
    - Cefnogi amaethyddiaeth hyfyw
    - Mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd
    - Magu'r gallu i wrthsefyll newid hinsawdd
    - Gwella bioamrywiaeth
    - Diogelu iaith a threftadaeth ddiwylliannol
- Ymgorfforu canlyniadau amgylcheddol (e.e. dal a storio carbon, bioamrywiaeth) mewn taliadau cymorth i ffermwyr yn y dyfodol.

**Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS)**

- Yn cymryd lle Cynllun y Taliad Sylfaenol (BPS).
- Gwirfoddol, ond dyma fydd y prif lwybr ar gyfer cael cymorth gan y llywodraeth.
- Rhaid i ffermwyr gynnal Gweithredoedd Cyffredinol (e.e. profion pridd, bioddiogelwch, meincnodi) i gael taliad sylfaenol.
- Bydd taliadau ychwanegol ar gael yn yr Haenau Opsiynol a Chydweithredol ar gyfer y ffermwyr hynny sy'n dewis gwneud mwy na'r Haen Gyffredinol.
- Yn cefnogi arferion fel amaeth-goedwigaeth, rheoli cynefinoedd sy'n gyfoethog o garbon, a rheoli glaswelltir heb wrteithiau.
- Yn dibynnu ar y Panel Adolygu Tystiolaeth ar Atafaelu Carbon, i sicrhau hygrededd gwyddonol.

**Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol(Cymru) 2021**


- Effaith anuniongyrchol arwyddocaol ar allyriadau nwyon tŷ gwydr, yn bennaf trwy reoli maetholion yn well a lleihau llygredd o dail a gwrtaith organig. Dyma enghreifftiau:
    - Sicrhau bod gwrtaith a thail yn cael eu defnyddio dim ond pan a lle bo angen, lleihau'r nitrogen dros ben mewn priddoedd a thrwy hynny leihau allyriadau $N_2O$
    - Cynlluniau rheoli maetholion ac integreiddio'r maetholion o dail a gwrtaith

**Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid**

- Cyfrannu at leihau allyriadau, yn bennaf trwy ei ddylanwad ar arferion rheoli da byw, sef prif ffynhonnell methan ($CH_4$) ac ocsid nitraidd ($N_2O$)

**Cynllun Cymorth Amlflwydd (MASP) 2025–2030**

- Map ffordd 5 mlynedd ar gyfer cymorth amaethyddol.
- Yn rhoi eglurder a sefydlogrwydd i ffermwyr yn ystod y cyfnod pontio i gynlluniau newydd.
- Yn cyd-fynd â'r SFS a nodau amgylcheddol ehangach.



## Creu Coetir

### Gweledigaeth strategol


- Mae'r **Strategaeth Coetir i Gymru** yn gosod y nod hirdymor o sicrhau cynnydd o 2,000–4,000 hectar o goetir bob blwyddyn.
- Disgwylir i goetiroedd ddod â llawer o fanteision: dal a storio carbon, lleihau perygl llifogydd, cysgod i dda byw, gwella bioamrywiaeth a lles pobl.

### Coedwig Genedlaethol Cymru

- Nod yr ymrwymiad pwysig hwn yn y Rhaglen Lywodraethu yw creu rhwydwaith cysylltiedig o goetiroedd o ansawdd uchel ledled Cymru.
- Rhaglen hirdymor a fydd hefyd yn helpu i adfer coetiroedd hynafol ac yn hyrwyddo rheolaeth gynaliadwy arnyn nhw er lles cenedlaethau'r dyfodol.

### Cymorth i blannu coed

- Mae cymorth ariannol ar gael drwy Grantiau Creu a Chynllunio Coetiroedd.
- Adolygu grantiau a phrosesau trwy'r amser i symleiddio mynediad ac annog cyfranogiad.



### Integreiddio â Ffermio

- Mae'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy (gweler uchod) yn annog ffermwyr i nodi cyfleoedd ar gyfer plannu coed a pherthi/gwrychoedd.
- Cefnogi integreiddio coed a ffermio tra'n parhau i gynhyrchu bwyd o ansawdd uchel.

### Y Strategaeth Ddiwydiannol ar gyfer Pren

- Mae Datblygu'r Diwydiant Pren yng Nghymru (a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2025) yn disgrifio'r blaenoriaethau ar gyfer datblygu economi bren.
- Yn canolbwyntio ar ddiogelu cyflenwadau pren, defnyddio pren o Gymru mewn adeiladu, cryfhau cadwyni cyflenwi lleol a chynyddu swyddi crefftus mewn coedwigaeth.

### Gwrthsefyll Effeithiau'r Hinsawdd

- Rhaid i'r coetir rydym yn ariannu ei greu fodloni Safonau Coedwigaeth y DU a bod yn addas ar gyfer hinsawdd y dyfodol.
- Mae ymchwil ar y gweill i nodi rhywogaethau coed sy'n gallu gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd i sicrhau coetiroedd cynaliadwy, amrywiol a gwydn.

### Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd

- Mae mawndiroedd yn dal tua 30% o holl garbon pridd Cymru ar ddim ond 4% o'r tir.
- Nod y Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd (NPAP) yw adfer yr ecosystemau dirywedig hyn trwy eu hailwlychu.
- Ers 2020, mae NPAP wedi adfer >3,600ha o fawndir, gwell na tharged y 5 mlynedd cyntaf, **flwyddyn yn gynnar yn 2024**. Trwy'r gwaith hwn, amcangyfrifir bod 2.2 miliwn tunnell o garbon wedi'i ddal.
- Dros y pum mlynedd nesaf, nod NPAP yw cynyddu'r mawndir sy'n cael ei adfer o 600ha i 1,800ha y flwyddyn.

### Cynllun Gweithredu ar Amaeth-dechnoleg

- Annog arloesedd mewn amaethyddiaeth fanwl, roboteg, a rheoli tir ar sail data.

### 4.1.2 Amaethyddiaeth a Defnydd Tir – cyngor

**Y Pwyllgor Newid Hinsawdd (PNH) – Cyngor ar y Bedwaredd Gyllideb Garbon (2025)**

Defnydd Tir:

- **Creu a rheoli coetiroedd (57% o ostyngiad mewn allyriadau yn 2033; 72% yn 2050).** Bydd cyfraddau creu coetiroedd yn codi o ryw 1,200 hectar y flwyddyn yn 2025 i'r gyfradd uchaf o 9,800 hectar y flwyddyn erbyn 2036. Bydd cyfran y tir sydd o dan orchudd coed yn codi o'r 15% presennol i 17% yn 2033, a 26% erbyn 2050.
- **Adfer a rheoli mawndiroedd (12% o ostyngiad mewn allyriadau yn 2033; 7% yn 2050).** Bydd cyfran y mawndir sy'n cael ei adfer a'i ail-wlychu yn cynyddu o'r 41% presennol i 52% yn 2033, ac i 85% erbyn 2050.
- **Amaeth-goedwigaeth a pherthi/gwrychoedd (31% o ostyngiad mewn allyriadau yn 2033; 21% yn 2050).** Mae cael mwy o goed a pherthi ar ffermydd yn helpu i gynhyrchu bwyd ac i ddal a storio carbon mewn llystyfiant a phriddoedd. Tybir bod y pontio i amaeth-goedwigaeth yn cynyddu 760 hectar bob blwyddyn.

Amaethyddiaeth

- **Arferion a thechnolegau ffermio carbon isel (51% o ostyngiad mewn allyriadau yn 2033).** Yn cefnogi amaethyddiaeth fanwl a thechnolegau allyriadau isel ar gyfer gwasgaru slyri, gan ddarparu tua hanner y gostyngiad mewn allyriadau sydd angen i'r sector amaeth ei ddarparu. Pwysleisir iechyd pridd hefyd, a rheoli maetholion yn well, defnyddio llai o wrtaith a mabwysiadu cnydau gorchudd i gynyddu carbon mewn pridd.
- **Lleihau nifer da byw (47% o ostyngiad mewn allyriadau yn 2033).** Mae'r PNH yn argymell gostyngiad o 19% yn nifer y da byw cnoi cil (yn enwedig gwartheg a defaid) er mwyn lleihau allyriadau methan, elfen fawr o allyriadau amaethyddiaeth Cymru. Mae'r PNH yn defnyddio llinell sylfaen sy'n dechrau yn 2025, ac yn amcangyfrif bod yna 10.9 miliwn o wartheg a defaid, a fydd yn gostwng i 9.7 miliwn yn 2030. Fodd bynnag, amcangyfrifwyd bod 9.8 miliwn o dda byw yn 2024. Awgrymir y daw'r newid hwn trwy sicrhau mwy o amrywiaeth o ffrydiau incwm a chaiff ei sbarduno, dywedir, gan duedd hirdymor i fwyta llai o gig a chynhyrchion llaeth yn y DU.
- Er mai'r gostyngiad yn y da byw cnoi cil yn aml sy'n denu'r sylw mwyaf, mae cyngor PNH yn awgrymu y bydd, **angen i arferion a thechnolegau ffermio carbon isel gyfrif am ryw hanner y gostyngiad mewn allyriadau** yn y degawd nesaf.
- Mae'r PNH yn awgrymu hefyd bod y newid i arferion modern, gwyrdd yn dod â chyfleoedd economaidd sylweddol, gan gynnwys:
    - **Cymysgedd glaswellt-codlysiau –** mae codlysiau sy'n cloi nitrogen yn y pridd yn lleihau'r angen am wrtaith nitrogen ac am bob tunnell yn llai o allyriadau a gynhyrchir dros y 5 mlynedd nesaf, arbedir £180;
    - **Gwella iechyd defaid –** am bob tunnell yn llai o allyriadau a gynhyrchir dros y 5 mlynedd nesaf, gallai arbed £60; a
    - **Datgarboneiddio peiriannau llonydd –** er y bydd cost gychwynnol ychwanegol, am bob tunnell yn llai o allyriadau a gynhyrchir yn y tymor hwy, arbedir £100.

Mae adroddiadau allweddol eraill yn y maes hwn yn cynnwys **Grŵp Her Sero Net Cymru 2035 (2024)**. Roedd yr adroddiad hwn yn canolbwyntio ar yr agweddau canlynol. Er nad oedd y costau ac arbedion carbon wedi'u mesur, nodwyd bod angen gweithio mewn ffordd holistig, gynhwysol at ddatgarboneiddio. Mae'r canfyddiadau, ar y cyfan, yn gyson â chyngor y PNH, er nad oes modd gwneud cymhariaeth uniongyrchol oherwydd diffyg data cymharol. Prif themâu eu gwaith yw:

- **Defnydd tir amlswyddogaethol:** Yn argymell newid o ffermio un cynnyrch i systemau sy'n cynhyrchu bwyd, yn dal a storio carbon, bioamrywiaeth a rheoli dŵr. Er enghraifft, gydag amaeth-goedwigaeth, gellir parhau i gynhyrchu cynnyrch amaethyddol yr un pryd â dal a storio carbon a manteision amgylcheddol, yn ogystal â chreu incwm newydd bosibl i ffermwyr.
- **Newid diet:** Yn awgrymu y gall lleihau'r defnydd o gig a llaeth leihau'r pwysau ar dir ac allyriadau.
- **Pontio teg:** Yn galw am gymorth ariannol a chyngor i ffermwyr drawsnewid i arferion cynaliadwy heb niwed economaidd.
- **Ymgysylltu â'r gymuned:** Yn annog cynllunio a chyd-ddylunio defnydd tir lleol gyda chymunedau gwledig.

Roedd y **Panel Adolygu Tystiolaeth ar Atafaelu Carbon- Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS)** o blaid stiwardiaeth tir hirdymor a thaliadau sy'n seiliedig ar ganlyniadau carbon a bioamrywiaeth wedi'u dilysu. Pwysleisiodd fod angen fframweithiau i gyfrif faint o garbon sy'n cael ei ddal a'i storio, ar sail tystiolaeth, a bod arfarniad gwyddonol yn cael ei gynnal o botensial perthi, tir pori parhaol, amaeth-goedwigaeth, a mawndiroedd i storio carbon. Unwaith eto, nid oedd y gweithredoedd i fodloni Cyllideb Garbon 3 wedi'u costio na'u mesur ond mae'n berthnasol o ran dull a sutydym am gyrraedd y nod.

## 4.1.3 Amaethyddiaeth a Defnydd Tir – consensws a heriau

Mae'r cyngor uchod yn cynnig consensws bod angen helpu'r trawsnewid i dirweddau amlswyddogaethol sy'n cynhyrchu bwyd, dal a storio carbon a chynnal bioamrywiaeth. Mae'r cyngor yn cydnabod hefyd y rôl y mae da byw yn ei chwarae ym mhroffil allyriadau'r sector amaethyddol, a'r angen i adfer mawndir a chynyddu gorchudd coetir.

Mae'r polisïau presennol yn mynd i'r afael â'r rhain i raddau, ac yn Wythnos Hinsawdd Cymru rydym am archwilio **sut i leihau allyriadau'r sector amaethyddol** yng Nghymru yn gynt. **Beth yw'r cyfleoedd? Beth yw'r rhwystrau? Sut y gallwn eu bwrw i lawr?** Wrth ystyried y cwestiynau hyn, efallai yr hoffech feddwl am:

- Sut gallwn ni ddefnyddio tir yng Nghymru mewn ffordd sy'n cefnogi sawl amcan yr un pryd – gan gynnwys cynhyrchu bwyd, tai, iechyd yr economi wledig, adfer natur (gan gynnwys delio â llygredd), a diogelu a gwella'r iaith a'r diwylliant Cymraeg?
- Sut gallwn ni ddefnyddio technoleg (e.e. AI a synhwyro o bell) i gyflymu'r trawsnewid?
- Beth yw'r cyfleoedd (ond hefyd y risgiau) o greu marchnadoedd preifat ar gyfer nwyddau a gwasanaethau sy'n seiliedig ar natur, sy'n hygyrch ac yn ymarferol i berchenogion tir a ffermwyr? Sut olwg allai fod ar hyn ar raddfa lai, o ystyried ein nodau yng Nghymru i gadw. ffermwyr llai a ffermwyr tenant ar y tir?

## 4.2 Tai

### 4.2.1 Tai a gwres – y sefyllfa ar hyn o bryd

Amcan y polisïau presennol yw mynd i'r afael â safonau cyffredinol, darparu cymorth a chymhellion i uwchraddio'r stoc dai bresennol, a datblygu gweithlu medrus er mwyn gallu newid i systemau gwresogi ac oeri carbon isel. Y polisïau allweddol a'u nodweddion yw:

**1. Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) 2023**
- Gosod safonau gofynnol newydd o ran effeithlonrwydd ynni ar gyfer tai cymdeithasol presennol.
- Ei gwneud yn ofynnol bod cartrefi'n fforddiadwy i'w gwresogi, wedi'u hawyru'n dda, ac yn gallu gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd.
- Datblygu hyn trwy ymgynghori helaeth, gan alinio â chyngor rhanddeiliaid.

**2. Y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio (ORP)**
- Darparu cyllid i landlordiaid cymdeithasol i wneud tai'n fwy effeithlon o ran ynni.
- Cefnogi gwaith ôl-osod tai cyfan, gan gynnwys inswleiddio, awyru a gwres carbon isel.
- Annog arloesedd a'r dull profi a dysgu.

**3. Y Rhaglen Cartrefi Clyd**
- Targedu aelwydydd sy'n dlawd o ran tanwydd trwy ddarparu cymorth y llywodraeth ar gyfer inswleiddio, cynhyrchu ynni adnewyddadwy a gwella'r system wresogi.
- Newid diweddar o atebion sy'n defnyddio tanwydd ffosil yn bennaf i gefnogi'r newid i systemau carbon isel a sero, hynny ar gyfer tai cyfan.
- Hyn yn cyd-fynd â chynllun Rhwymedigaeth Cwmnïau Ynni (ECO) Prydain Fawr, gan gynnwys cynlluniau ECO LA Flex lleol, i helpu aelwydydd incwm isel.

**4. 4. Cartrefi Gwyrdd Cymru**
- Cynllun sy'n cael ei reoli gan Fanc Datblygu Cymru ac wedi'i gynllunio i gefnogi perchnogion cymwys i wneud eu cartrefi'n fwy ynni-effeithlon.
- Yn targedu aelwydydd sy'n gallu buddsoddi, gydag arweiniad arbenigwyr, cyllid hyblyg a chyllid grant.
- Yn ategu'r Cynllun Uwchraddio Boeleri.

**5. Cynllun Gweithredu ar Sgiliau Sero Net**
- Yn cynnwys hyfforddiant ar gyfer aseswyr ôl-osod, gosodwyr a chynghorwyr ynni.
- Mynd i'r afael â'r bylchau yn y gweithlu a welwyd yn ymgynghoriadau PNH a STAC.

**6. Rheoliadau Adeiladu**
- Gosod y safon ar gyfer cartrefi newydd yng Nghymru, gyda Rhan L (arbed tanwydd a phŵer), Rhan O (gordwymo) a Rhan F (awyru) o berthnasedd penodol ar gyfer lliniaru ac addasu i'r hinsawdd.
- Bydd yr ymgynghoriad presennol ar godi safonau effeithlonrwydd ynni yn Rhan L yn sicrhau y bydd cartrefi newydd ac adeiladau annomestig yn 'barod i fod yn ddi-garbon', sy'n golygu na fydd angen gwneud rhagor o waith i'w gwneud yn ddi-allyriadau carbon rywbryd yn y dyfodol wrth i'r grid trydan barhau i ddatgarboneiddio.

**7. Gofynion Ansawdd Datblygu Cymru 2021**
- Gosod safonau gofynnol newydd ar gyfer tai cymdeithasol newydd.
- Ei gwneud yn ofynnol i gartrefi fodloni EPC A (SAP 92) gyda system wresogi a dŵr twym/poeth nad yw'n defnyddio tanwydd ffosil.
- Mabwysiadu'r arferion gorau wrth symud i economi adeiladau gylchol sydd wedi'i datgarboneiddio, gan gynnwys gwneud y defnydd gorau o bren a defnyddio dulliau adeiladu modern.
- Eu hadolygu a'u diweddaru yng Ngwanwyn 2026.

**8. Cymell defnydd effeithlon o ynni drwy gynlluniau tai eraill**


- Mae ein cynllun Cymorth i Brynu Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i bob cartref sy'n cael ei werthu drwy'r cynllun gael sgôr EPC o B neu uwch.
- Mae Cynllun Prydlesu Cymru a'r cynllun Grant Cartrefi Gwag yn cynnwys cymorth ariannol i wella sgôr effeithlonrwydd ynni cartrefi.

**9. Rhannu gwybodaeth ac ymgysylltu â'r cyhoedd**

- Mae gwasanaeth cynghori Nyth yn ddi-dâl i bawb yng Nghymru. Mae'n rhoi cyngor ar ddefnyddio ynni'n effeithlon a chostau ynni, yn penderfynu pwy sy'n gymwys am fesurau di-dâl cynllun Nyth ac yn cyfeirio at wasanaethau cymorth a chynghori eraill.
- Mae rhaglen a **gwefan Gweithredu ar Newid Hinsawdd** yn hyrwyddo dewisiadau ynni cynaliadwy, gan ymdrin â llawer o bynciau gan gynnwys cyngor ar newid ymddygiad, gwybodaeth am fesurau i arbed ynni a chanllawiau ar gyfer gwresogi carbon isel.
- Mae'r Hyb Carbon Sero Net yn darparu adnoddau i landlordiaid cymdeithasol ddatblygu ac ôl-osod eu cartrefi, gan gynnwys astudiaethau achos a chyrsiau hyfforddi.
- Mae Dangosfwrdd Amgylchedd Adeiledig Cymru yn blatfform i gyflenwyr cynhyrchion a gwasanaethau rannu gwybodaeth am yr hyn y gallan nhw ei gynnig i ddarpar gwsmeriaid.

**10. Mae Datblygu'r Diwydiant Pren yng Nghymru**

- (gweler uchod yn adrannau 3.2 a 4.1.1) yn disgrifio'r potensial i ddefnyddio pren o Gymru mewn tai cymdeithasol drwy Tai ar y Cyd.



### 4.2.2 Tai a gwres – cyngor

**Y Pwyllgor Newid Hinsawdd – Cyngor ar y Bedwaredd Gyllideb Garbon (2025)**

- **Gwresogi Carbon Isel (43% o ostyngiad mewn allyriadau yn 2033):** Yn annog dileu systemau gwresogi tanwydd ffosil yn gyflym ond fesul cam, gan ganolbwyntio ar osod pympiau gwres a systemau gwresogi ardal yn eu lle. Y nod yw gosod systemau gwresogi trydan carbon isel yn lle systemau tanwydd ffosil sydd wedi dod i ddiwedd eu hoes, mewn 23% o gartrefi erbyn 2033. Bydd sgil-fanteision fel biliau ynni is dros amser ac ansawdd aer gwell, yn enwedig mewn ardaloedd trefol. Nid fydd gan hydrogen ran i'w chwarae wrth wresogi cartrefi.
- **Defnyddio ynni'n effeithlon (19% o ostyngiad mewn allyriadau yn 2033):** Dylid defnyddio ynni'n fwy effeithlon cyn troi at wresogi carbon isel. Erbyn 2033, bydd mesurau arbed ynni mawr wedi'u cynnal yn 18% o gartrefi (bron i 280,000 o fesurau) gan gynnwys inswleiddio llofftydd, waliau a lloriau. Bydd tua 1.2 miliwn o fesurau arbed ynni bach gan gynnwys atal drafftiau ac inswleiddio tanciau dŵr twym, wedi'u gosod erbyn 2033.
- **Cartrefi ac offer newydd ac arferion arbed ynni (39% o ostyngiad mewn allyriadau yn 2033):** Rhaid i bob cartref newydd gael ei adeiladu at safon 'Yn barod i fod yn Net Sero' o 2026, heb systemau gwresogi tanwydd ffosil newydd ac o adeiladwaith ynni-effeithlon o'r cychwyn cyntaf. Caiff offer eu datgarboneiddio neu caiff offer ynni-effeithlon eu darparu yn eu lle, a mabwysiedir arferion arbed ynni i leihau biliau ynni, megis gostwng tymheredd llif y boeler a throi'r thermostat i lawr.
- **Swyddi, sgiliau a chadwyni cyflenwi:** Yn nodi'r angen am fuddsoddiad i hyfforddi gweithlu ôl-osod a chadwyni cyflenwi cadarn. Mae hyn yn cynnig opsiwn i bobl ifanc sy'n chwilio am swydd dda a gyrfa, yn ogystal ag i weithwyr symud o fusnesau yr effeithir arnynt gan y trawsnewidiad i sero net.
- **Ymgysylltu:** Yn cydnabod yr angen i ddatblygu a chynnal strategaeth ymgysylltu i ddarparu gwybodaeth glir a dibynadwy.

Mae'r PNH yn awgrymu bod **costau ac arbedion posibl datgarboneiddio tai yn gymysg a bydd yn bwysig ystyried ble maen nhw'n disgyn.** Bydd rhai o'r newidiadau yn rhoi arian yn ôl ym mhocedi pobl bron yn syth ond bydd cyfnod ad-dalu rhai lawer hirach.

- **Arferion arbed ynni:** mae'r PNH yn tybio y bydd cyfran o'r ymddygiad i arbed ynni a welwyd rhwng 2021–2023 ac a ddigwyddodd o ganlyniad i gostau ynni uchel, yn parhau i'r dyfodol. Mae'r PNH yn awgrymu y gallai hyn gyfrif am dros 40% o'r gostyngiad sydd ei angen yn y pum mlynedd nesaf ac yn costio dim i gymdeithas.
- **Gwresogi carbon isel:** mae gosod pympiau gwres, er enghraifft, yn gost gymharol uchel, dros £400 y dunnell yn llai o allyriadau ac felly ar hyn o bryd mae'n fwy na all llawer o aelwydydd ei fforddio. Mae'r PNH yn awgrymu y dylai tua 15% o'r gostyngiad mewn allyriadau yn y pum mlynedd nesaf ddod o osod systemau gwresogi trydan mewn cartrefi preifat. O ganlyniad, bydd tua 1 o bob 4 cartref wedi'i gynhesu fel hyn erbyn 2033.
- **Defnyddio ynni'n effeithlon:** hefyd yn cyfrif am oddeutu 15% o'r gostyngiadau mewn allyriadau yn y pum mlynedd nesaf, ond am bob tunnell yn llai o allyriadau a gynhyrchir, arbedir tua £180. Ond bydd costau cychwynnol.


Mae adroddiadau allweddol eraill yn y maes hwn yn cynnwys **Grŵp Her Sero Net Cymru 2035 (2024).** Fel gydag amaethyddiaeth, nid oedd y grŵp wedi mesur costau nac arbedion carbon eu hargymhellion ond ystyriwyd yr holl newidiadau y gallai fod eu hangen i gyflymu ymdrechion datgarboneiddio. Roedd yr adroddiad yn cytuno'n fras â'r PNH ond mae'n cyfeirio hefyd at y meysydd canlynol:

- **Tegwch cymdeithasol:** targedu buddsoddiad i ôl-osod mewn tai cymdeithasol ac aelwydydd incwm isel i fynd i'r afael â thlodi tanwydd.
- **Partneriaethau cyflawni lleol:** Helpu pobl leol i ddewis yr opsiwn gorau ar gyfer eu cartref, eu stryd neu eu cymdogaeth
- **Gweithio gyda Thenantiaid:** Annog tenantiaid i sefydlu rhwydweithiau cymorth er mwyn gallu rhannu syniadau a phrofiadau.
- **Arloesedd cyllidol:** Cynnig bod Banc Datblygu Cymru yn cynnig amrywiaeth o gynnyrch ariannol a chyllid allanol, gyda chynhyrchion fel morgeisi gwyrdd ar gael yn rhwydd dros amser.

Trafod wrth ddatblygu Strategaeth Gwres Cymru ac ymgynghori arni, gan dynnu sylw at themâu tebyg i'r rhai a amlinellwyd uchod. Cydnabu hefyd y cyfleoedd sylweddol sy'n gysylltiedig â gwres fforddiadwy, cartrefi iach, busnesau gwydn, swyddi a thwf gwyrdd, aer glân a diogelu cyflenwadau ynni. Yr unig adroddiad mawr arall yn y maes polisi hwn yn y blynyddoedd diwethaf oedd ymgynghoriad WHQS 2023, sy'n cynnwys pennod ar wres fforddiadwy ac effaith amgylcheddol (Rhan 3). Roedd ymatebion rhanddeiliaid yn bragmatig, gan gefnogi targedau effeithlonrwydd ynni uchelgeisiol ond cyraeddadwy, hyblygrwydd o ran gwahanol fathau o dai a chydbwyso perfformiad ynni â chanlyniadau eraill dymunol. Er mwyn cefnogi lefel yr uchelgais a'r gost gysylltiedig, galwodd ymatebwyr yr ymgynghoriad am ymrwymiadau cyllido aml-flwydd er mwyn i landlordiaid cymdeithasol allu gwneud cynlluniau hirdymor.


### 4.2.3 Tai a gwres – consensws a heriau

Er bod cyngor y PNH a Grŵp Sero Net 2035 yn dod i gasgliadau ychydig yn wahanol ynghylch pa feysydd i ganolbwyntio arnynt, maent yn gytun ynghylch yr angen i ddatgarboneiddio'n gyflym ond yn gosteffeithiol y ffordd yr ydym yn gwresogi ein cartrefi. Mae Grŵp Sero Net 2035 yn awgrymu gwahanol ffyrdd o gyflawni hyn, a'r rôl y gallai gwahanol sefydliadau (e.e. Llywodraeth, sefydliadau ariannol, adeiladwyr tai, landlordiaid preifat a chymdeithasol) ei chwarae.



Yn Wythnos Hinsawdd Cymru, rydym am archwilio **sut i gyflymu'r trawsnewidiad i wresogi carbon isel** mewn cartrefi ledled Cymru yng ngoleuni'r casgliadau hyn, ac o gofio dylanwad cymharol Llywodraeth Cymru a'r DU. **Sut gall Cymru wneud y gorau o'r cyfleoedd? Beth yw'r rhwystrau? Sut y gallwn eu bwrw i lawrd?** Wrth ystyried y cwestiynau hyn, efallai yr hoffech feddwl am:

- Pa ddulliau sydd wedi profi'n effeithiol wrth ysgogi perchenogion a landlordiaid i fuddsoddi mewn arbed ynni a gwres carbon isel?
- Sut ydyn ni'n sicrhau bod pobl yn gallu cael at gyngor a chymorth clir, diduedd er mwyn teimlo'n hyderus wrth wneud penderfyniadau ynghylch gwres carbon isel?
- Sut gallwn ni ddenu pobl i ddilyn gyrfa mewn effeithlonrwydd ynni a gwresogi carbon isel? Pwy yw'r sefydliadau allweddol a sut ydyn ni'n cydweithio i wneud i hyn ddigwydd?
- Beth yw'r cyfleoedd ar gyfer dysgu sgiliau newydd i weithwyr, a sut ydym yn cefnogi unigolion a busnesau i arallgyfeirio a thrawsnewid?
- Sut gall Llywodraeth Cymru weithio gyda phartneriaid i feithrin cronfa ffyniannus o gyflenwyr yng Nghymru sy'n darparu nwyddau a gwasanaethau i gefnogi datgarboneiddio tai?
- O ran cyllid, ble ddylai'r llywodraeth ganolbwyntio'i hymdrechion a sut dylwn ni ddenu cyllid preifat? Pa atebion ariannol eraill sydd ar gael nawr, neu sy'n cael eu datblygu, i ysgogi pobl i ddefnyddio technolegau carbon isel?



## 4.3 Trafnidiaeth

### 4.3.1 Trafnidiaeth – y sefyllfa ar hyn o bryd

Mae cynaliadwyedd, hygyrchedd a diwygiadau yn dylanwadu'n drwm ar bolisïau trafnidiaeth yng Nghymru, yn enwedig ym maes trafnidiaeth gyhoeddus. Y polisïau allweddol a'u nodweddion yw:

**1. Llwybr Newydd, Strategaeth Drafnidiaeth Cymru (2021–2040)**

- Gweledigaeth hirdymor ar gyfer system drafnidiaeth gynhwysol carbon isel.
- Yn cynnwys targedau ar gyfer newid dulliau teithio (e.e. 45% o deithiau drwy ddulliau cynaliadwy erbyn 2040).
- Cafodd ei datblygu ar ôl ymgynghoriad cyhoeddus a mewnbwn arbenigwyr.

**2. Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013**

- Yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynllunio a darparu seilwaith cerdded a beicio.
- Cefnogi newid ymddygiad a sgil fanteision iechyd.

**3. Adolygiad Adeiladu Ffyrdd (2023)**


- Canslo neu ohirio prosiectau ffyrdd mawr sy'n anghyson â'r nodau ar gyfer yr hinsawdd.
- Yn gyson â chynghorion y PNH a'r Grŵp Her i osgoi ymrwymiadau carbon.

**4. Cynllun Gweithredu ar Wefru Cerbydau Trydan**

- Y nod yw ehangu seilwaith cyhoeddus ar gyfer gwefru cerbydau trydan ledled Cymru.
- Yn cefnogi argymhellion y PNH ar gyfer trydaneiddio trafnidiaeth breifat.

**5. Diwygio'r Bysiau: Un Rhwydwaith, Un Amserlen, Un Tocyn**

- Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi model masnachfreinio ar waith ar gyfer gwasanaethau bysiau, tebyg i Transport for London.
- Y nod yw creu rhwydwaith cydgysylltiedig, wedi'i gynllunio'n gyhoeddus gydag:
  - Amserlenni integredig
  - Tocynnau unedig
  - Prisiau teg
  - Yn canolbwyntio ar leihau tlodi trafnidiaeth, yn enwedig ar gyfer pobl hŷn ac anabl ac yng nghefn gwlad.



### 4.3.2 Trafnidiaeth – cyngor

**Y Pwyllgor Newid Hinsawdd – Cyngor ar y Bedwaredd Gyllideb Garbon (2025)**

**Ceir a faniau trydan (54% o ostyngiad o'r naill a 20% o'r llall mewn allyriadau yn 2033).** Mae llwybrau'r PNH yn awgrymu erbyn 2033, y bydd bod 39% o'r ceir a 37% o'r faniau ar y ffordd yn rhai trydan. Disgwylir i 90% o'r holl geir a faniau newydd a werthir yng Nghymru yn 2030 fod yn rhai trydan, sy'n llai na'r 95% yng nghyngor Seithfed Gyllideb Garbon y DU, ond rhagwelir y bydd Cymru yn dal i fyny ac y bydd 100% o'r holl geir a faniau newydd a werthir erbyn 2035 yn rhai trydan. Gostyngiad yn y prisiau sy'n sbarduno'r cynnydd mewn cerbydau trydan. Mae pwyntiau cyhoeddus gwefru cerbydau trydan y pen yng Nghymru yn debyg i gyfartaledd y DU, a bydd strategaeth gwefru Llywodraeth Cymru yn hwb sylweddol i'r twf yng ngwerthiant cerbydau trydan y mae'r PNH yn gofyn amdano.

**HGVs di-allyriadau (3% o ostyngiad mewn allyriadau yn 2033).** Mae'r PNH yn tybio mai cerbydau trydan batri yw'r opsiwn a ddewisir i ddatgarboneiddio cerbydau nwyddau trwm (HGVs).

**Newid moddol a gyrru effeithlon (15% o ostyngiad mewn allyriadau yn 2033).** Mae gwneud bysiau a theithio llesol yn fwy deniadol, fforddiadwy a hygyrch yn caniatáu symud 6% o'r galw am geir i drafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol erbyn 2033, gan godi i 7% erbyn 2035. Er bod y pellter a deithir mewn car yn parhau i dyfu, mae newid moddol yn lleihau'r twf hwnnw o'i gymharu â'r llinell sylfaen.

**Effeithlonrwydd cerbydau confensiynol, cerbydau di-allyriadau eraill a datgarboneiddio'r rheilffyrdd (5%, 2% ac 1% o ostyngiad mewn allyriadau yn 2033, yn y drefn honno).** Er bod mwy o gerbydau trydan yn cael eu gwerthu, rhaid i gerbydau confensiynol gynhyrchu llai o $CO_2$ hefyd. Gwneir hyn trwy wneud cerbydau petrol a diesel yn fwy effeithlon, gan gynnwys mesurau fel eu gwneud yn ysgafnach a cherbydau hybrid.

Mae'r PNH yn credu mai trafnidiaeth yw un o'r meysydd fydd yn cynnig y cyfleoedd economaidd mwyaf trwy gyflymu datgarboneiddio. Mae eu dadansoddiad economaidd yn awgrymu y bydd prisiau ceir tanwydd ffosil a cheir trydan batri newydd yn gyfartal o 2026. Maen nhw'n credu y bydd y costau cynnal a chadw rhatach a'r gost gymharol is y filltir yn sicrhau arbedion i ddefnyddwyr. Er bod hyn yn wir i fusnesau a chyrff y sector cyhoeddus, mae cost prynu unrhyw gar newydd yn ormod i lawer. Bydd yn cymryd amser i'r modelau hyn gyrraedd y farchnad ail-law ac i fwy o bobl weld y manteision.

- **Cerbydau Trydan Batri –** mae'r PNH yn rhagdybio y bydd BEVs yn cyfrif am 18% o'r gostyngiad yn y pum mlynedd nesaf. Ceir costau sylweddol, sy'n codi cwestiynau o ran pontio cyfiawn, ond gallai'r buddsoddiad hwnnw olygu am bob tunnell yn llai o allyriadau a gynhyrchir, arbedir £190.
- **Lleihau'r galw (lleihau'r pellter a deithir gan gerbydau) a chyfyngu cyflymder –** nid oes unrhyw gost ynghlwm wrth y rhain, ac yn ôl astudiaeth y PNH daw ag arbedion cost sylweddol. Amcangyfrifir y bydd Lleihau'r Galw yn gyfrifol am 8% o'r gostyngiad yn CG3 am bob tunnell yn llai o allyriadau a gynhyrchir, arbedir £260. Bydd cyfyngu cyflymder yn gyfrifol am oddeutu 6% o llai o allyriadau ac yn arbed £250 fesul tunnell yn llai o allyriadau.
- **Effeithlonrwydd Llongau –** mabwysiadu mesurau gweithredol a thechnolegol i wneud llongau'n fwy ynni-effeithlon. Mae tystiolaeth economaidd y PNH o'u llwybr cytbwys yn awgrymu y byddai hyn yn cyfrif am oddeutu 14% o'r allyriadau a arbedir yng Nghyllideb Garbon 3. Daw â chostau, ond am bob tunnell yn llai o allyriadau a gynhyrchir, gallai arbed tua £110.
- **Eco-gyrru** sef cyflwyno technegau gyrru darbodus i leihau'r defnydd o danwydd wrth yrru. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod teiars wedi'u llenwi'n iawn ac osgoi cyflymu a brecio sydyn. Er bod hyn yn cyfrif am lai na 7% o'r gostyngiad yng nghyngor y PNH, daw ag arbedion cost sylweddol, ac amcangyfrifir am bob tunnell yn llai o allyriadau a gynhyrchir, arbedir £230.

Roedd argymhellion Grŵp Her Sero Net Cymru 2035 (2024) unwaith eto yn ategu rhai'r PNH, ond nid ydynt wedi mesur y manteision na faint o allyriadau a arbedir. Canolbwyntiodd y grŵp yn arbennig ar gefnogi system drafnidiaeth gynhwysol, hyblyg er enghraifft trwy ailddyrannu gofod ar y ffyrdd yn lonydd bysiau, llwybrau beicio a pharthau i gerddwyr, tanlinellu anghenion ardaloedd gwledig a thynnu sylw at bwysigrwydd trafnidiaeth hygyrch, fforddiadwy i ddefnyddwyr incwm isel ac anabl. Gwnaeth argymell hefyd alinio buddsoddiad mewn trafnidiaeth â datblygiadau cryno, defnydd cymysg i leihau'r galw am deithio.

Mae yna hefyd rai rhyng-ddibyniaethau sylweddol rhwng lliniaru ac addasu i effeithiau'r hinsawdd yn y sector trafnidiaeth. Er enghraifft, mae angen i ni fynd i'r afael â'r risgiau cynyddol canlynol:

- gorboethi i ddefnyddwyr trafnidiaeth gyhoeddus a llwybrau teithio llesol, wrth i ni annog mwy i ddefnyddio'r dulliau teithio hyn
- toriadau pŵer yn sgil tywydd eithafol, wrth i ni ddod yn fwyfwy ddibynnol ar drafnidiaeth drydan
- llifogydd a stormydd yn tarfu ar rwydweithiau a gwasanaethau trafnidiaeth.


### 4.3.3 Trafnidiaeth – consensws a heriau

Ar draws y dystiolaeth a'r cyngor, mae themâu clir o gwmpas mabwysiadu technolegau newydd, newid moddol, rheoli galw a chynhwysiant. Pan fyddwn yn ystyried y newid i gerbydau trydan – at ddibenion domestig a busnes – mae angen i ni sicrhau bod y trawsnewidiad yn cael ei gefnogi ac yn hygyrch i sicrhau bod y manteision yn cael eu rhannu'n deg.

Yn Wythnos Hinsawdd Cymru rydym am archwilio **sut rydym am sicrhau pontio cynhwysol, yn enwedig ar gyfer cymunedau gwledig a/neu agored i niwed. Sut gall Cymru elwa i'r eithaf ar y cyfleoedd? Beth yw'r rhwystrau? Sut y gallwn eu bwrw i lawr?** Wrth ystyried y cwestiynau hyn, efallai yr hoffech feddwl am:

- Sut gallwn ni wneud yn siŵr bod pobl Cymru yn cael y manteision o deithio'n egnïol a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus?
- Beth yw'r rhwystrau i gael mwy o deithio llesol a mwy o ddefnydd o drafnidiaeth gyhoeddus?
- Sut ydyn ni'n cefnogi pobl a busnesau Cymru i gael manteision defnyddio cerbydau trydan? Beth sydd angen digwydd i gerbydau trydan fod yn ddewis cyntaf i yrwyr?
- A allai prisio ffyrdd chwarae rôl wrth leihau allyriadau trafnidiaeth ffyrdd? Ydyn ni'n deall digon am ei effeithiau a'i gyfaddawdau?
- Ble dylai Llywodraeth Cymru ganolbwyntio ei hymdrechion? E.e. buddsoddi mewn trafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol? Annog lleihau'r galw? Cefnogi'r llai cyfoethog i ddefnyddio cerbydau trydan?

# 5. Casgliad



Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi bod yn rhagweithiol o ran gweithredu er lles yr hinsawdd. Rydym wedi comisiynu llawer o gyngor annibynnol ar amaethyddiaeth a defnydd tir, tai a thrafnidiaeth ac rydym eisoes wedi ymateb drwy bolisi a buddsoddi, fel y gwelwch yn Sero Net Cymru: Cyllideb Garbon 2. Ond mae angen gwneud mwy.

Mae'r cyngor annibynnol a gawsom – sy'n cynnwys adolygiadau gwyddonol, ymgynghoriadau â rhanddeiliaid, a modelau strategol – wedi creu llyfrgell gyfoethog ar gyfer datblygu polisi. Ond mae'r daith o gyngor i weithredu yn parhau'n gymhleth ac anwastad.

Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, rydym felly yn ceisio barn y rhai y bydd parhau â'r daith i sero net yn effeithio arnyn nhw. Er y bu llawer o ymgysylltu a thrafod am y materion hyn eisoes, hoffem fanteisio ar y cyfle hwn i geisio rhagor o fewnbwn ar siâp y cynllun. Bydd Wythnos Hinsawdd Cymru ym mis Tachwedd 2025 a chronfa grant y Sgyrsiau Hinsawdd yn sbarduno'r ddeialog **gwefan Camau Hinsawdd Cymru**.

Bydd yr ymateb i'r adroddiad hwn yn cael ei ymgorffori yn y cynllun ar gyfer Cyllideb Garbon 3, a fydd yn cael ei chyhoeddi yn 2026.